

BBC CREATIVE INDUSTRY LECTURES

WILL HUTTON

Manceinion

Mai 15, 2008

Mae geiriau'n bwysig. Cymerwch air fel 'cyhoeddus'. Trosglwyddwyd y cysyniad hwn i ni o oes Groeg a Rhufain – sef byd sydd y tu hwnt i'r preifat y mae gan bob dinesydd ran ynddo. Felly'r sgwâr cyhoeddus yn Athen a dadl gyhoeddus. Felly heddiw llwybr cyhoeddus a llyfrgell gyhoeddus. Ac at ddiben y ddarlith hon, darlledwr cyhoeddus.

Yn yr oes iconoclastig sydd ohoni nid oes fawr o le i bethau mawrfrydig, ond i mi mae i'r syniad o eiddo cyhoeddus le hollbwysig. Mae'r cysyniad hwn wrth wraidd diwylliant y byd gorllewinol. Rhodd fawr Cyfnod yr Ymoleuo yn Ewrop oedd atgyfodi'r traddodiad clasurol a mynnu bod lle cyffredin y tu hwnt i'r eglwys, y frenhiniaeth neu'r wladwriaeth lle byddai rhyddid i drafod syniadau – gan eu cyflwyno i liaws o bobl amrywiol eraill i graffu arnynt a'u harchwilio'n annibynnol a dim ond os llwyddwyd i oresgyn hynny y byddant o werth. Immanuel Kant, yn anad neb, a grisialodd ysbryd Cyfnod yr Ymoleuo drwy alw ar unigolion i fentro cael gwybod, ond dim ond os oes lle cyhoeddus sy'n caniatáu i mi - ac i chi - gael gwybodaeth a fydd yn sail i ni gael mentro y bydd modd mentro gwybod. Yn anochel caiff gwybodaeth ei newid gan sensoriaid, dewiniaid delwedd, ystumwyr meddyliau, y rhai â'u gafael ar rym a'r rhai sy'n mynnu dylanwad. Mae'r rhai â grym yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus am i ni gredu eu gwirionedd hwy. Yr unig beth y gallwn droi ato yw lle cyhoeddus annibynnol sy'n fodd i ni wneud iawn am hynny drwy gael rhyddid i herio a phrofi'r gwirioneddau rhannol hyn – a'r celwyddau gwirioneddol weithiau - fel y gallwn ganfod y gwir. Mae'r Senedd, llysoedd a phrifysgolion yn rhan o'r lle cyhoeddus hwn, ond felly hefyd, a hynny'n hollbwysig, y cyfryngau annibynnol.

Felly mae eiddo cyhoeddus a'r wladwriaeth yn ddau syniad gwahanol iawn - ac mae'n hollbwysig gwahaniaethu rhyngddynt yn glir. Nid ydym yn sôn am lwybrau'r wladwriaeth na llyfrgelloedd y wladwriaeth. Mae bod yn gyhoeddus yn golygu bod ar gael yn annibynnol i bob dinesydd, i gynnig tegwch i bawb, ac i fod yn dryloyw ac yn atebol. Dyma felly lwybr cyhoeddus. Dyma felly gyfraith gyhoeddus. Mae'r wladwriaeth, mewn democratiaeth ryddfrydol lle mae pleidiau yn cystadlu â'i gilydd i ennill grym mewn etholiadau rheolaidd, yn amlwg hefyd yn rhan o eiddo cyhoeddus - ond o reidrwydd mae'n pledio achos ideoleg benodol y blaid sydd mewn grym. Ac yn y pen draw mae ganddi rym i gymell. Hyd yn oed mewn gwladwriaeth ddemocrataidd mae angen rhwystrau a gwrthbwysau a'r gallu i ddwyn i gyfrif - ac i wneud hynny mae angen i'r eiddo cyhoeddus yn fwy cyffredinol, y mae'r cyfryngau yn rhan hollbwysig ohono, gael craffu ar yr hyn a wna.

Yn fy marn i, y gwahaniaeth hwn rhwng y wladwriaeth a'r cyhoeddus sy'n dechrau ac yn diweddu unrhyw drafodaeth am ddarlledu cyhoeddus lle mae'r BBC yn aml yn cael ei alw'n ddarlledwr y wladwriaeth. Nid felly y mae. Y BBC

yw'r sefydliad yn anad yr un arall yn y wlad sy'n ymroi i gorffori rhinwedd natur gyhoeddus ym myd teledu, radio a'r rhyngrwyd – lle cyhoeddus Cyfnod yr Ymoleuo sy'n rhoi cyfle i ni fel dinasyddion fynd at graidd y mater mewn byd llawn gwirioneddau a safbwyntiau croes. Telir amdano gan bob dinesydd sy'n berchen ar set deledu neu radio ac sy'n cyfrannu at ffi'r drwydded – nid treth atchwel mohoni fel y dywedir weithiau ond ffi a delir gan bawb er mwyn cynnal y lle cyhoeddus hwn. Ac yn yr un modd mae wedi parhau i ymgysylltu â'i gyhoedd er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud ei waith a thrwy hynny'n parhau i fod yn ddilys.

Byddai'r rhan fwyaf ohonom – efallai pob un ohonom – yn cyd-fynd â'r ddadl hyd yma. Ond dyma ddechrau gofyn y cwestiynau anodd. A ddylai un sefydliad yn unig, y BBC, feddu ar fonopoli ffi'r drwydded? Oni fyddai'n well pe bai'r ffi yn cael ei dyrannu i'r holl ddarllledwyr niferus hynny mewn oes ddigidol sydd am gefnogi'r eiddo cyhoeddus mewn rhaglenni penodol, dyweder drwy gyngor celfyddydau ar yr awyr? Yn benodol oni ddylai Channel 4, ein darllledwr cyhoeddus arall, fod yn gymwys i gael peth o ffi'r drwydded i'w helpu wrth i referniw hysbysebion leihau mewn oes ddigidol aml-sianel? Os felly, efallai y dylai'r BBC fod yn llai o faint. A ph'un a yw'n parhau i fod yr un maint neu'n llai, a yw'r ffordd y mae'r BBC yn cadarnhau ei natur gyhoeddus yn ddigon cadarn?

Fy ateb i yw bod sefydliad sy'n ymgorffori darlledu cyhoeddus dros rychwant rhaglenni a darpar gynulleidfaoedd, gan gyrraedd mäs critigol felly, yn hollol angenrheidiol. Mae'r BBC, er iddo gyfeiliorni o bryd i'w gilydd, yn parhau i gyfiawnhau'r ffydd yr ydym yn ei rhoi ynddo i gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae ei angen arnom am nad yw gwerthoedd darlledu cyhoeddus yn ymddangos o'r awyr; rhaid eu bod wedi'u gwreiddio yn realiti beunyddiol gwneud rhaglenni go iawn o ddydd i ddydd i ddinasyddion - a'n gallu i farnu a gyrhaeddir y safon. Mae i hyn ddwy fantais. Rydym yn gwarantu parhad darlledu cyhoeddus a thrwy hynny ran hollbwysig o eiddo cyhoeddus; a bydd gennym feincnod i farnu ymdrechion darllledwyr eraill. Dim ond pan fyddwn yn ffyddiog bod yna BBC cryf y gall unrhyw drafodaeth ynghylch a ddylid rhoi mwy o gymorth cyhoeddus i Channel 4 a sut ddechrau - gan sicrhau nad ydym yn peri i'r naill wanhau er mwyn helpu'r llall.

Mae troi'r theori uchelfrydig yn rhaglenni gwirioneddol yn anodd. Diffiniodd yr Arglwydd Reith rôl y BBC fel un sy'n diddanu, yn hysbysu ac yn addysgu - ond mynnodd gael gwrthrychedd a didueddrwydd fel gwerthoedd yn sail i'r cyfan. Yn fy marn i, mae hwn yn fan cychwyn eithaf da ond fe awn ymhellach. Mae gwerthoedd a phwysau cynyddol fasnachol heddiw yn tanseilio gallu'r sector preifat i gynnal cyfryngau annibynnol sydd â'u bryd ar ganfod y gwir a hynny ar adeg pan fo'r rhai grymus yn dod yn fwyfwy clyfar o ran celu'r hyn y maent am ei gelu. Dadleuaf o blaid atgyfnerthu syniadau Reith - Reithiaeth newydd. Yn syml, mae'n rhaid i ddarllledwr cyhoeddus ehangu a chyfoethogi fy mywyd fel dinesydd drwy geisio mynd at graidd materion drwy ei holl raglenni - mewn dramâu a rhaglenni dogfen llawn cymaint ag ym maes newyddion a materion cyfoes. Mae'n dilyn y dylem ofyn tri chwestiwn i'r BBC. A yw ei raglenni yn ehangu ein bywydau fel dinasyddion? A fu ymgais ddiwyd i grisialu gwirionedd y mater? A yw'n mynd

ati i sicrhau ei fod yn gwasanaethu'r eiddo cyhoeddus drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r holl wylwyr a gwrandawyr?

Swyddogaeth ganolog rôl y BBC yn ein bywydau fel dinasyddion felly yw darparu gwybodaeth. Mae'n rhaid darparu newyddion sy'n wrthrychol ac yn ddiuedd. Mae'n rhaid cynnig trafodaeth a dadl sy'n adlewyrchu pob math o safbwyntiau'n deg. Ym maes rhaglenni dogfen a materion cyfoes mae'n rhaid iddo roi i ni ddadansoddiad dwfn sy'n dwysáu ein dealltwriaeth. Mae'n rhaid iddo fod yn greadigol ac yn egniol o ran sicrhau bod pob dinesydd yn yr ynysoedd hyn yn cael cyfle i fod yn rhan ohono. Ac yn yr holl feysydd hyn mae angen i ni wybod bod y rhai sy'n gwneud rhaglenni yn ceisio mynd at graidd y mater a'i gyfleu i ni. Efallai na fyddant bob amser yn llwyddo. Ond rhaid iddynt bob amser ymdrechu.

Dyma i chi dri gair allweddol arall – gwirionedd, gwrthrychedd a didueddrwydd. Dywedodd Michael Jackson, prif weithrediwr Channel 4 gynt a chyn-reolwr BBC Un a Dau, fod darlledu cyhoeddus yn fwdw diangen. Nid oes y fath beth â gwrthrychedd na gwirionedd; yn hytrach roedd lliaws o safbwyntiau gwrthrychol a gwirioneddau yn dibynnu ar eich safbwynt a'ch gwerthoedd. Yn hytrach na cheisio paratoi rhaglenni a ymdrechodd yn ofer i sicrhau rhyw gydbwysedd a gwrthrychedd, gwell o lawer fyddai i wneuthurwyr rhaglenni dorri'n rhydd a chynnig llu o raglenni bwriadol bleidiol fel y gallai gwylwyr wylïo'r rhai hynny a oedd yn cyd-fynd â'u rhagfarn neu a oedd yn eu herio'n danbaid.

Anghytunaf yn llwyr â barn Jackson, a'r farn ôl-fodern ynglŷn â gwirionedd sy'n sail iddi. Credaf fod llawer o broblemau dilynol Channel 4 - a grisialwyd yn y ffrae ynglŷn â *Big Brother* neu'r amheuan na allai'r darluniad ardderchog mewn rhaglen ynglŷn â ffundamentalïaeth Islamaidd yn *Undercover Mosque* fod yn wir am fod gan y sianel hanes annymunol o olygu amheus a gafodd ei esgusodi drwy ddweud mai'r unigolyn a gaiff benderfynu beth yw'r gwirionedd (honiad y mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymddiheuro yn ei gylch heddiw ... ar ôl i Channel 4 a gwneuthurwr y rhaglen ddwyn achos cadarn yn eu herbyn) - yn deillio, yn fy marn i, o gamgymeriad Jackson. Bu'n braf gweld bod Channel 4 ei hun yn ei datganiad cenadwri diweddaraf - Next on 4 - am ailymrwymo i'r hyn a ystyrid yn fwdw gynt. Oherwydd mae gwirioneddau i'w cael, a gellir eu canfod hyd yn oed o dan amgylchiadau anodd.

Un o'r enghreifftiau mwyaf cofiadwy a amlygodd y syniad o ganfod y gwir yn wrthrychol ym maes darlledu cyhoeddus i mi oedd 25 mlynedd yn ôl yn ystod Rhyfel Ynysoedd y Falkland; roedd Brian Hanrahan, gan weithredu o dan reolau cyfyngol rhyfel, yn cyflwyno adroddiad o'r llong cludo awyrennau *Hermes* ynglŷn â nifer yr awyrennau Harrier oedd yn dychwelyd o gyrch. Bu'n eu cyfrif wrth iddynt adael, meddai, ac yn eu cyfrif wrth iddynt dychwelyd; a dychwelodd pob un. Nid yn unig roedd y cyhoedd ym Mhrydain yn ei gredu – ond y cyhoedd ledled y byd. Gwyddai pawb fod hon yn enghraifft glasurolo o wrthrychedd y BBC, bod y newyddiadurwr a'i sefydliad cyfan yn hollol ymrwymedig i ganfod y gwir ac yn ceisio ei darlledu hyd y gellid a bod Hanrahan wedi cyfrif yr awyrennau wrth iddynt adael ac wrth iddynt

ddychwelyd. Roedd y gwerthoedd hyn yn rheswm pwysig pam bod ein hachos ni yn fwy dilys na lywodraethau junta'r Ariannin.

Mae mynd at graidd unrhyw fater yn anodd - ond mae'r BBC yn gosod y dasg hon iddo'i hun bob dydd. Fel gwlad rydym yn gadael iddo ddiystyru'r genhadaeth honno neu ei hamodi ar berygl i ni eu hunain. Pan ddechreuodd darlledu yn y 1920au gosododd yr UD athrawiaeth tegwch ar ei darlledwyr yn yr un modd ag y sefydlodd Prydain werthoedd Reith yn sail i'r BBC; mewn byd o brinder sbectwm roedd yn amlwg bod y rhai a gafodd y fraint o'i feddiannu yn gorfod ymrwymo i degwch ac ymgais i ganfod y gwir.

Rhoddwyd y gorau i athrawiaeth tegwch gan Ronald Reagan. Gan adleisio geiriau Michael Jackson, dywedodd dilynwyd Reagan nad un gwirionedd ydoedd ond sawl un, a chan fod amrywiaeth o sianeli erbyn hyn y dylai gwylwyr sianeli a gwrandawyr gael rhyddid i ddewis y gwirionedd yr oeddent am ei glywed. Roedd ideoleg y marchnadoedd rhydd, barn ôl-fodern ynglŷn â gwirionedd, buddiannau teledu a radio masnachol a buddiannau gwleidyddol y blaid Weriniaethol yn cyd-daro i'r dim - a dilynwyd Reagan yn amau'n gywir mewn amgylchedd o'r fath y byddai arian yn prynu fersiynau mwy ceidwadol na rhyddfrydol o'r gwir. Ac felly y bu, gyda phawb wrth gwrs yn honni eu bod yn cyflwyno safbwynt gwrthrychol - a'r cyhoedd yn America yn mynd yn fwyfwy sinigaidd ynglŷn â'r hyn a glywant ac a wylant. Ond yn waeth na dim, mae'r dewiniaid delwedd a'r ystumwyr wedi cael rhwydd hynt. Y sgandal diweddaraf yw'r datgeliad bod y Pentagon yn y cyfnod cyn y rhyfel yn Irac ac yn ystod y rhyfel wedi rhoi gwybodaeth gyfrinachol i rwydwaith o gyn-benaethiaid milwrol a aeth yn eu blaen i genhadu o blaid y rhyfel yn Irac ar y rhwydweithiau teledu a radio, a wnaeth nid yn unig fethu â'u herio'n iawn - ond oherwydd eu bod wedi'u trefnu yn farchnad o wirioneddau, ni welsant reswm penodol dros eu herio. Cafodd y cyhoedd yn America eu camarwain, heb neb yn ceisio canfod y gwir y gallent feincnodi'r hyn a glywsant yn ei erbyn. Mae'r eiddo cyhoeddus yn America wedi ei ddiraddio.

A dyna pam bod y BBC fel sefydliad newyddion a materion cyfoes mor anhepgor i'r wlad hon, a pham, wrth i sianeli luosi mewn byd digidol, y daw'n bwysicach byth fel y sefydliad darlledu sy'n ymrwymedig i ganfod y gwir yn anad dim lle mae cymaint o fersiynau o'r gwirionedd yn cael eu gwyntyllu. Dyna oedd ei reddf yn ystod y rhyfel yn Irac, ac er nad wyf am godi hen grachen ynglŷn â chyhuddiad y BBC fod y Llywodraeth wedi gorliwio'r ffeithiau yn y dogfennau amheus yn fwriadol gan wybod y byddai'n twyllo, cyhuddiad a barodd gymaint o wewyr i'r BBC - aeth y BBC y tu hwnt i'r hyn a wyddai ar y pryd ac ni ddylai fod wedi gwneud hynny - fe wnaeth hynny am ei fod yn ceisio mynd at graidd y mater. Ac o'r hyn a wyddom erbyn hyn, bu'n agosach na neb arall er iddo fynd dros ben llestri. Roedd dau werth pwysig yn gwrthdaro â'i gilydd; yr awydd i ganfod y gwir a'r awydd i gyhoeddi stori'n gyntaf hyd yn oed os aeth y tu hwnt i'r hyn a wyddai'r gohebydd, er gwaethaf pa mor dda oedd ei ffynhonnell. Collodd y BBC ei gadeirydd a'i gyfarwyddwr cyffredinol ar y pryd wrth amddiffyn y gwerth cyntaf, yn ogystal ag ysgogi'r system reoleiddio newydd gan Ymddiriedolaeth y BBC. Cydnabyddaf fod y gorfforaeth ar fai a bod angen rhywfaint o newid, ond a oedd y BBC a'i ohebydd Andrew Gilligan, yn haeddu cymaint o gosb - heb fawr ddim

cydnabyddiaeth o werth ei awydd i ddweud y gwir a chynnal yr eiddo cyhoeddus hefyd - mae'n amheus gennyf. Yn y dyfodol, bydd angen hyn a'r reddf hon yn fwy nag erioed.

Yr ymgais i ganfod y gwir, rhoi ffeithiau a gwybodaeth i'r dinesydd a chynnal yr eiddo cyhoeddus sydd wrth wraidd pob newyddiaduraeth dda - ac nid darlledwr cyhoeddus y wlad yw'r unig un sy'n cynnig newyddiaduraeth ddarlledu ardderchog. Ond mae gwahaniaeth cynnil rhwng newyddiaduraeth papur newydd sydd yn nwylo unigolyn a darlledwr cyhoeddus, a grisialwyd yn sylw enwog C.P. Scott, golygydd y *Guardian* - neu'r *Manchester Guardian* y dylwn ei ddweud - bod pawb â'i farn ond bod ffeithiau'n gysegredig. Mae'n rhaid i'r ffordd y mae darlledwr cyhoeddus yn blaenoriaethu newyddion o ran pwysigrwydd - ei brif stori, ei ail stori ac ati, y drefn ddarlledu fel y'i gelwir - gyfateb i wirionedd yr hyn sy'n bwysig y diwrnod hwnnw yn hytrach na'r hyn y mae'r papur newydd, gyda'i safbwynt penodol am y byd a gwleidyddiaeth yn ei ystyried yn bwysig. Mae'n rhaid i bob adroddiad gynnwys cydbwysedd mewnlol ac ymgais i fynd at graidd y mater. Ac mae'n rhaid i'r dolenni cyswllt rhwng yr adroddiadau fod yn fanwl, gyda'r iaith yn ceisio cyfleu'r gwir yn gywir. Rhaid i ddadansoddiad materion cyfoes a dogfennol ddilyn yr un rheolau.

Mae'r BBC yn cael cryn feirniadaeth am ei benderfyniadau bob dydd - a hynny'n gwbl deg weithiau. Er enghraifft, fe'm trawyd gan y sylw am Northern Rock - pan gyhoeddodd y BBC stori ar ôl stori cyn sefydliadau newyddion eraill - ond pan drawsnewidiwyd y llywodraeth yn raddol yn ysglyfaeth nes bod yr iaith a ddefnyddiwyd mewn adroddiadau wedi mynd yn llac iawn. Ar y bore pan oedd y Canghellor Alistair Darling yn mynd i wneud ei ddatganiad gerbron y Tŷ bod Northern Rock yn cael ei roi yn nwylo'r wladwriaeth dros dro, yn y bwletinau newyddion soniwyd amdano'n "cyfiawnhau" ei benderfyniad - gan awgrymu bod y BBC yn ochri â beirniaid y Canghellor. Rhaid mai'r ferf i ddarlledwr diduedd â'i fryd ar ganfod y gwir fyddai fod y Canghellor yn mynd i "esbonio" ei benderfyniad.

Mater bach ydyw, ond mae materion bach mewn cyd-destunau gwahanol sawl gwaith y dydd yn crynhoi. Weithiau mae'n rhaid penderfynu beth ddylai'r brif stori fod; a oedd hanes trist diflaniad Madeleine McCann mor bwysig nes ei fod yn haeddu dechrau'r newyddion mewn cymaint o fwletinau'r BBC am gynifer o ddiwrnodau - a hyd yn oed anfon y cyflwynydd Huw Edwards i Bortiwgal? Nac oedd, wir. A ddylai'r BBC fod wedi bod mor barod i gyhuddo ASau o dwyll personol pan bleidleisiwyd i beidio ag ymestyn darpariaethau rhyddid gwybodaeth iddynt hwy am y byddai hyn yn amharu ar eu gallu i wasanaethu eu hetholwyr? Bu gan Dŷ'r Cyffredin ddadl ddilys a rhaid oedd gwranddo arni. A yw naws rhai cyfweiliadau gwleidyddol - mae'r gwleidydd hwn wrth reswm yn dweud celwyddau wrtha i - yn beth da neu hyd yn oed yn briodol wrth geisio mynd at graidd y mater?

Dyma rai o'r sylwadau beirniadol adnabyddus a dylai'r BBC roi sylw iddynt. Ond yn yr un modd mae angen i ni, y cyhoedd, eu barnu yn erbyn swmp a sylwedd rhaglenni'r BBC o wythnos i wythnos. O bryd i'w gilydd mae Jeremy Paxman neu Jonathan Humphreys yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n

dderbyniol mewn darlledu cyhoeddus o ran y ffordd y maent yn herio pobl; ond ar y cyfan mae'r naill a'r llall wedi ennill enw am fod yn barod i ganfod y gwir yn ddiuedd ac yn ddiflino mewn ffordd y mae rhannau eraill o'r cyfryngau yn ei chael yn anodd eu hefelychu.

Ac mae'r BBC yn gweithredu yn erbyn cefndir o ddiwylliant yn y cyfryngau ehangach sy'n mynd yn gynyddol aflednais lle mae gwerthoedd newyddion gwrthrychol a'r parodrwydd i'w gefnogi gyda buddsoddiad yn llesgáu o fis i fis. Dyma fyd lle bu'n rhaid i'r Express Newspapers gyhoeddi ymddiheuriad ar y dudalen flaen i'r McCanns am honni iddynt chwarae rhan yn niflaniad eu merch. Lle mae Channel 4 yn y *Great Global Warming Swindle* yn darlledu rhaglen pan fydd Carl Wunsh, un o'r rhai a gyfwelodd yn dweud bod ei sylwadau wedi'u hystumio cymaint nes iddo gael ei atgoffa o bropaganda'r Ail Ryfel Byd. Byddai araith ffarwelio Tony Blair ynglŷn â'r cyfryngau fis Mehefin diwethaf wedi bod yn fwy dewr pe bai wedi ei thraddodi dair wythnos yn gynharach cyn iddo adael ei swydd; ond roedd ei ddisgrifiad o gyfryngau gwyllt sy'n benderfynol o gael effaith a gostwng safonau wedi taro tant. Mae cystadleuaeth frwd, pwysau cynyddol i ofyn i newyddiadurwyr wneud mwyfwy gyda llai o adnoddau, a pharodrwydd cynyddol ymhlith golygyddion a pherchnogion papurau newydd i drefnu'r newyddion fel ei fod yn tynnu sylw at y stori fachog, gywir sy'n cyd-daro â rhagfarnau golygyddion a darllenwyr, yn gyfuniad peryglus. Ac nid y gwleidyddion yw'r unig rai sy'n dioddef. Yn y byd sydd ohoni mae gwyddonydd sy'n mynd yn erbyn y llif ac yn honni bod cyswllt rhwng MMR ac awtistiaeth er gwaethaf pentwr o dystiolaeth i'r gwrthwyneb yn cael sylw anhygoel - gan demtio'r rhaglen *Today* i mewn i'r ffrae, gwaetha'r modd - a phan fydd rhai rhieni yn ofni trefnu i'w plant gael brechiad, yn sydyn mae risg i iechyd y cyhoedd. Peidied neb â chredu nad yw newyddiaduraeth dda yn bwysig.

Ar y llaw arall, mae newyddiadurwyr cyfoes yn wynebu grym cyhoeddus a phreifat sy'n mynd yn barotach fyth i gymylu pethau, bwlio a sbinio - dan warchodaeth cyfreithiau enllib llym a chyda chefnogaeth diwydiant cysylltiadau cyhoeddus clyfar, ariannog. Os yw newyddion yn rhywbeth nad oes rhywun am i'r gweddill ohonom ei wybod, mae'n mynd yn fwyfwy anodd mynd y tu hwnt i'r datganiad i'r wasg - ac wrth ofyn cwestiynau diniwed hyd yn oed, i gael atebion syml. Ym myd y wasg lle gall gohebwr ysgrifennu tair neu bedair stori'r dydd, ym myd newyddion 24/7 - lle mae'r pwysau i benderfynu ar unwaith ar newyddion yn hytrach nag aros i stori ddatblygu am awr neu ddwy er mwyn cael darlun cadarnach o'r hyn sy'n digwydd a lle mae'r rheolaeth dros luniau yn galluogi testun y stori i bennu naws y stori - mae angen ystafelloedd newyddion wedi'u hariannu'n dda â'u bryd ar ganfod y gwir. Yn hytrach na beirniadu'r BBC am ei wendidau, mae angen ei gymeradwyo am wneud cyn lleied o gamgymeriadau - a dal i gyhoeddi straeon wrth iddynt ddigwydd a chynnig dadansoddiad o safon.

Roedd adroddiadau Robert Peston, y golygydd busnes, o Northern Rock yn eithriadol o dda. Roedd rhaglen *Panorama* yn ddiweddar ar C.difficile yn fodel o ddarlledu cyhoeddus - ôl ymchwil dda, cytbwys, bachog a miniog. Mae *Newsnight*, i mi o leiaf, yn rhaglen anhepgor; mae'n llwyddo i fod yn gyfoes ac yn peri syndod. Mae *Today* mor fywiog a chwilfrydig ag erioed. Mae

World at One wedi cael ei adfer ar ôl colli athrylith ddifedur Nick Clarke. Mae bwletinâu newyddion Radio 1, Jeremy Vine ar Radio 2, a Radio 5 Live yn cynnig newyddiaduriaeth sy'n ceisio canfod y gwir i gynulleidfa mor eang â phosibl. Bob dydd mae hyn yn digwydd; ac rydym yn ei gymryd yn ganiataol. Weithiau mae'r ymgais i fod yn wrthrychol a chyfleu'r canfyddiad o fod yn gytbwys yn gorfodi'r BBC i esgus fod yn elyniaethus. Er enghraifft, rwyf weithiau yn anfodlon ar y ffasiwn newydd o gyfweld ag uwch newyddiadurwyr y BBC ar ôl cyfweiliad gwleidyddol pwysig i ddehongli'n wrthrychol yr hyn yr ydym newydd ei glywed; nid yw eu rhagfarnau hwythau ond ychydig o dan yr wyneb, ac mae'n gwneud y gohebydd yn bwysicach na'r gwleidydd etholedig. Mae'n dweud wrth y gynulleidfa fod gwleidyddion mor dwyllodrus nes ei bod yn amhosibl ymddiried yn yr hyn a ddywedant heb gyfryngu diduedd y BBC sydd mewn perthynas elyniaethus o fod yn barhaol amheugar. Sut bynnag, bodau dynol yw golygyddion gwleidyddol y BBC; mae gormod o rym o'r fath yn llygru pawb. Ni ddylem synnu bod gwleidyddion, mewn ymateb i hynny, yn dod yn fwyfwy gofalus am yr hyn a ddywedant. Ni ddylai ymgais i ganfod y gwir olygu bod diwylliant gelyniaethus parhaus; pan fydd cyfwelwyr pennaf y BBC yn mynd i drafferthion, y rheswm fel arfer yw eu bod wedi mynd yn gaeth i'r diwylliant hwn.

Ni all y BBC anwybyddu diwylliant ehangach y cyfryngau. Mae sylw am Ewrop yn y papurau newydd, yn enwedig mewn rhai teitlau Ceidwadol wedi bod yn hynod esgeulus o'r gwir yn eu hawydd i brofi mai gelyn Prydain yn hytrach na'i chyfaill yw Brwsel; pe bai'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cael yr un sylw â Madeleine McCann oni fyddai wedi cael ymddiheuriad erbyn hyn. Mae'r rhai sy'n amheus o Ewrop am wybod pam nad yw'r BBC yn efelychu'r sylwadau unochrog, gan ddweud bod ei awydd i ganfod y gwir yn ddim byd amgenach na ragfarn ryddfrydol. Ystyriais ildio i bwysau'r lobi Ewro-sgeptig a lansio ymchwiliad mewnol i ddarganfod a yw sylw'r BBC am yr UE yn dangos rhagfarn am nad oedd yn efelychu'r un rhagfarn systemaidd â rhannau o'r wasg - nad yw llawer ohonynt yn cynnal swyddfa ym Mrwsel mwyach - yn wan. Ac er i'r ymchwiliad ddatgan bod y beirniaid yn anghywir, roedd yr holl weithred yn derbyn y chwedl wag, a ledwyd gan Andrew Marr, fod y BBC yn amlygu rhagfarn ryddfrydol ddiwylliannol.

Mae'r BBC yn rhyddfrydol, ond yn ystyr yr Ymoleuo; rydym yn byw mewn democratiaeth ryddfrydol gyda sefydliadau rhyddfrydol, ac o ystyried twf llywodraethau awdurdodaidd ledled y byd, diolch byth am hynny. Mae'r BBC yn agored i bob barn, ac mae'r rhai na allant oddef cael eu hamlygu i groesholi manwl ac adroddiadau yn seiliedig ar dystiolaeth yn cyhuddo'r BBC o fod yn rhagfarnllyd. Weithiau pobl Ewro-sgeptig ydynt, weithiau Llywodraeth Israel yw hi; weithiau'r Palestinaid; weithiau'r Llywodraeth Brydeinig. Nid wyf yn dadlau bod pob un o benderfyniadau'r BBC yn iawn - rwyf wedi nodi rhai o'm pryderon fy hun - ond glynaf wrth y farn ei fod yn ceisio cael pethau yn iawn. Mae'n ceisio mynd at graidd y mater i bob dinesydd bob amser. A gwna hynny'n fwy nag unrhyw sefydliad newyddion arall yn y wlad.

Mae'n dod yn fwy o dan y llach nag y dylai fod. Roedd setliad diweddar ffi'r drwydded yn gybyddlyd; Gordon Brown fel Canghellor yn ildio i bwysau gan ddarlledwyr masnachol y dylai'r BBC fod yn brin o arian a hynny am ddim

rheswm gwell na dangos ei fod yn wleidyddol gywir amheus o'r BBC. Mae'r cylch o ddiswyddiadau a chwtdgi cyllidebau golygyddol, ynghyd â gormod o hunan-feio bob tro mae'n gwneud camgymeriad, wedi arwain at argyfwng cynyddol mewn morâl. Nid yw'r BBC yn ddim heb ei staff ymrwymedig. Dylai mwy ohonom o'r tu allan bledio achos y sefydliad a'r hyn y mae ei staff yn ei gyflawni. Weithiau rwyf yn amau a oes ganddo unrhyw ffrindiau o gwbl - cydnabyddiaeth go dila o'i gyfraniad aruthrol i'n gwlad.

A phwy ddylai bledio ei achos? Mae i'r strwythur newydd gryfderau mawr, ond un o'r anawsterau yw mai rheoleiddiwr y BBC yw'r Ymddiriedolaeth yn y bôn ac nad eiriolwyr yw rheoleiddwyr. Yn yr un modd mae'n anodd iawn i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fod yn eiriolwr credadwy dros y sefydliad y mae'n ei arwain. Mae gwleidyddion yn teimlo nad oes fawr ddim mantais wleidyddol mewn pleidio ei achos, ac mae pob newyddiadurwr y tu allan i'r BBC a phob beirniad am brofi ei hygrededd drwy ladd arno. Ac erbyn hyn mae bygythiad pellach i'w arian drwy frigidorri ffi'r drwydded, fel y'i gelwir, a rhoi cyfran i Channel 4 sy'n wynebu heriau.

Gwarchodwr gorau y BBC a'r gwarantwr gorau ei fod yn gwneud ei waith yw ni – y cyhoedd. Yn fy marn i, nid yw'r BBC yn gwneud digon i ddefnyddio'r adnodd a'r gefnogaeth gudd yma, i'w ddiogelu ei hun ac i sicrhau ei fod yn gwneud ei waith. Mae'n buddsoddi cryn dipyn i ddarganfod pa rai o'i raglenni sy'n cael eu gwyllo a chan bwy; mae'n pryderu am ei gyfran o'r farchnad, natur ei gynulleidfa a maint ei gynulleidfa. Ond mae diffyg cyswllt rhwng rhethreg darlledu cyhoeddus a'r arfer o ddadansoddi cynulleidfa fel y mae cadwyn archfarchnad yn ei wneud gyda'i defnyddwyr.

Defnyddwyr ydym ni, ond rydym hefyd yn gwyllo'r BBC ac yn gwrando arno fel dinasyddion. Mae gan y BBC, fel y rheoleiddiwr, Ofcom, fetrics sefydledig yn nodi sawl awr o newyddion, drama a rhaglenni ffeithiol y mae'n ei darlledu. Ond dylai'r ddau fynd ymhellach. Ochr yn ochr â'r mesurau meintiol hyn o allbwn rhaglenni, hoffwn ddatblygu mesurau ansoddol i asesu'r hyn a alwais yn Reithiaeth Newydd - a'r cwestiynau a godais yn gynharach. Pa mor dda y mae'r BBC - neu Channel 4 - yn ehangu ein bywydau fel dinasyddion? I ba raddau y mae'r ymgais i ganfod y gwir yn rhan annatod o'r hyn y mae wedi'i ddarlledu? Ac a yw'n cynnal eiddo cyhoeddus drwy becynnu'r hyn y mae'n ei wneud mewn ffordd mor greadigol fel y bydd pawb yn y wlad yn ei fwynhau? Bob dydd dylai fod wrthi'n ceisio llwyddo o ran y dinesydd, canfod y gwir ac eiddo cyhoeddus – holi ei wylwyr, cynnull torfeydd, trefnu rheithgorau dinasyddion, cael adborth cynulleidfaoedd. Byddai'n fwy hyderus bod yr hyn yr oedd yn ei wneud yn iawn, ac iddo seiliau ac yn ei gadw'n onest; a gallai herio ei feirniaid gyda'r wybodaeth honno. Gwnaeth y BBC ymrwymiad o'r fath ar adeg Adnewyddu'r Siarter, ond araf iawn fu'r cynnydd ers hynny - yn wir braidd dim cynnydd hyd y gwelaf i. Yn hytrach dylai weithredu.

A ddylai fod yn llai? Enwch rywbeth y byddech yn ei gwtogi. Mae hyd yn oed yr awgrym i breifateiddio Radio 1 a 2 yn gyfeiliornus yn fy marn i; maent yn hollbwysig i allu'r BBC i fod yn ddarledwr i bawb - i gyfleu newyddion a materion cyfoes darlledu cyhoeddus i gynulleidfa gyffredinol.

Gellir dadlau y dylai fod gan y BBC fwy o sianeli digidol yn hytrach na llai. A yw'n crwydro gormod i mewn i diriogaeth rhy fasnachol o ran ei uchelgais ym maes y rhyngwrwd ac addysg? Mae'r maes hwn wedi'i reoleiddio'n eithaf llym gan yr Ymddiriedolaeth ond bydd anghydfod bob amser yn codi. Synnais o glywed bod BBC Worldwide wedi prynu'r Lonely Planet Guides; ni all y BBC ond cyfiawnhau cyhoeddi masnachol o'i eiddo deallusol a grëir ganddo'i hun - ac mae'n colli cefnogaeth hollbwysig os yw'n gwyro gormod oddi wrth y genhadaeth honno. Yn yr un modd mae'n rhaid iddo fod yn ofalus ynglŷn â'i wefannau; y meincnod bob amser yw a oes i unrhyw weithgarwch ddiben cyhoeddus.

A ddylai Channel 4 gael rhan o ffi'r drwydded? Yn hyn o beth mae angen meddwl yn llorweddol. Mae'r BBC, ac yntau o dan bwysau ariannol, am ei chadw iddo'i hun. Ond mae angen iddo feddwl yn strategol. Ar hyn o bryd y BBC yw'r llong gyfalaf - y llong cludo awyrennau - yng nghanol llynges fach o ddarlledwyr cyhoeddus. Mae gennym Channel 4 ynghyd â'r rhwymedigaethau darlledu cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag ITI a Channel 5. Gallai Sky, heb y rhwymedigaeth hon, fod wedi troi at ddarlledu fwdw, ond os oedd temtasiynau mae Sky wedi eu gwrthsefyll - yn bennaf am fod safonau uchel mewn mannau eraill. Mewn byd digidol mae angen i ni gadw effaith y llynges fach. Dylai Ofcom wrthsefyll y darlledwyr masnachol sy'n ceisio ei ddarbwylllo i godi eu rhwymedigaethau darlledu cyhoeddus oddi arnynt; ac mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod adnoddau da gan Channel 4. Efallai y dylai fod atodiad i ffi'r drwydded wedi'i neilltuo ar gyfer Channel 4; efallai y gellir taro bargaen rhwng Channel 4 a BBC Worldwide er mwyn iddi gyfrannu at yr hyn a gynigir ganddo ac yn rhannu ei elw. Mae angen i ni gadw'r BBC yn gryf, ond y ffordd orau o wneud hynny yw peidio â mynnu mai'r BBC yw'r unig ddarlledwr cyhoeddus. Mae angen bwtresi a chynhalion arno.

Oherwydd sefydliad mawr yn nhraddodiad yr Ymoleuo ydyw – sy'n cael ei gydnabod y tu allan i'r wlad hon fel un o'n cyflawniadau cenedlaethol gorau oll. Mae'n enw byd-eang sy'n cyrraedd cynulleidfa fyd-eang. Os mai'r rheswm dros ei fodolaeth yw bod yn o brif gynhalwyr eiddo cyhoeddus Prydain, yn baradocsaidd ddigon nid yw'n cael fawr ddim cydnabyddiaeth gyhoeddus am wneud hynny. Mae'n bryd i ni, y cyhoedd, gael moddion gwell i fynegi ein pryderon yn sicr - ond hefyd ein gwerthfawrogiad. Mae gennych feiau, BBC. Ond rydych yn annwyl i ni.